# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020

Amser: 09.04 - 09.45

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Caroline Jones.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Busnes yr Wythnos Hon**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y tri newid i Fusnes yr Wythnos Hon:

- Mae'r datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar ailadeiladu economaidd wedi'i dynnu'n ôl.
- Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Farchnad Fewnol wedi'i ohirio tan 8 Rhagfyr.
- Mae datganiad gan y Prif Weinidog ar gyfyngiadau Coronafeirws mis Rhagfyr wedi cael ei ychwanegu fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o barhau y tu hwnt i 5.40pm.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o barhau y tu hwnt i 7.15pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Argymhellion Burns - Y Camau Nesaf (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (45 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (15 munud)~~

**Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020**

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn ar yr amserlen: Cafodd y Rheolwyr Busnes wybodaeth am faterion sy'n berthnasol i amserlennu'r ddadl ar Adroddiad 03-20.

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2020 -**

- Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 03-20 (15 munud)

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2021 -**

- Dadl ar ddeiseb P-05-1032 Deddfu i atal pobl rhag newid enwau Cymraeg tai (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Grŵp Cynghrair Diwygio Annibynnol (60 munud)

## 4 Pwyllgorau - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

### 4.1 Newid y trothwy ar gyfer ystyried cynnal dadl ar ddeisebau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Deisebau yn nodi barn y Rheolwyr Busnes ynghylch newid y trothwy ar gyfer ystyried dadleuon ar ddeisebau.

### 4.2 Llythyr yn gofyn am ddadl ar ddeiseb

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar y ddeiseb ar 13 Ionawr 2021.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

### 5.1 Gweithdrefnau Busnes Cynnar

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cynigion a chytunwyd i drafod y materion a godwyd gyda'u grwpiau cyn dychwelyd at y mater yn y cyfarfod ar 15 Rhagfyr.

## Unrhyw fater arall

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor Busnes ar y dyddiau Llun canlynol rhwng 11.00am ac 1.00pm:

- 18 Ionawr:
- 1 Chwefror; a
- 22 Chwefror:

**Gwrthwynebiadau**

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes roi rhybudd ymlaen llaw, lle y bo'n bosibl, os ydynt yn bwriadu gwrthwynebu eitemau wrth gymryd rhan o bell, yn hytrach nag yn y Siambr.

**Coronafeirws - Cyfyngiadau mis Rhagfyr**

Gofynnodd Darren Millar am opsiynau ar gyfer cynnal dadl (a phleidlais) ar gyfyngiadau Coronafeirws mis Rhagfyr, cyn y bleidlais ar y rheoliadau a wnaed yn gadarnhaol, y disgwylir iddynt gael eu cynnal ar 15 Rhagfyr. Cafodd y Rheolwyr Busnes wybodaeth am opsiynau yn ymwneud â dadleuon nad ydynt yn ddadleuon y Llywodraeth.